COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 9 MAI 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd S Maughan – Cadeirydd

G Walter P Baker R Lynch

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Pilinger | Swyddog Ymchwilio - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Annie Waller | Dirprwy Gynghorydd Cyfreithiol - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

**155. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 09 Mai 2024 |

**156. Ymchwiliad gan yr Ombwdsmon o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Penderfynodd y Pwyllgor bod tramgwyddo yn erbyn paragraff 11(a), 14(1)(a), 14(1)(c) a 14(1)(e) wedi digwydd. Ni wnaeth yr Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau fel sy'n ofynnol o dan y Cod. Ni wnaeth ychwaith dynnu'n ôl o'r drafodaeth ac fe gyflwynodd sylwadau mewn perthynas ag eitem ar yr agenda yr oedd ganddo fuddiant rhagfarnus ynddo.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor, ar sail y ffeithiau a sefydlwyd yn ystod y gwrandawiad, bod tramgwyddo yn erbyn paragraff 7(a) wedi digwydd. Gallai'r cyhoedd ystyried yn rhesymol bod ymwneud yr Aelod yn yr eitem ar yr agenda yn ymgais i geisio mantais i'w wraig, neu anfantais i'r Clerc.<br><br>Gan edrych ar ymddygiad cyffredinol yr Aelod, roedd y Pwyllgor o'r farn ei fod o natur digon difrifol i ddwyn anfri ar y Cyngor a'i swyddfa ef fel aelod. Barn y Pwyllgor dan yr amgylchiadau hyn oedd y byddai ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr awdurdod a swyddfa'r Aelod wedi eu niweidio ac y byddai hyn yn dwyn anfri arnynt.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod gael ei gosbi drwy ei atal dros dro am 6 mis. Gwnaed hyn yn unol â'u pwerau o dan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaeth Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 09 Mai 2024 |

Daeth y cyfarfod i ben am 1400